



Pecyn Croeso TAR Drama: 2023-24

Annwyl fyfyrwr TAR Drama

Croeso i'r rhaglen TAR Uwchradd Drama a llongyfarchiadau ar ennill eich lle!

Yn barod ar gyfer y flwyddyn brysur a chyffrous sydd i ddod, cwblhewch y tasgau y manylir arnynt isod a gynlluniwyd i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer y cwrs. **Llenwch nhw erbyn Medi 2023.**

1) CADARNHAU EICH LLE

Pan dderbyniwch y pecyn hwn, anfonwch e-bost ataf yn ethayer@cardiffmet.ac.uk i gadarnhau y byddwch yn dechrau gyda ni ym mis Medi 2023.

2) HUNANASESU EICH GWYBODAETH PWNC

Edrychwch ar y rhestr o gynnwys pwnc cyffredin Drama yn Atodiad A a hunanaseswch faint wyddoch chi am bob un o'r pynciau. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond mae'n gasgliad o gynnwys cyffredin manylebau TGAU/Ôl-16 y DU. Symbylwyd y cynnwys yn arloesol a dylid ei flaenoriaethu wrth dargedu gwelliannau i'ch gwybodaeth pwnc. Y ffordd fwyaf amlwg o wneud hyn yw darllen am y pwnc, fodd bynnag, mae arsylwi gwaith gan ymarferwyr priodol (neu'r rhai sydd wedi'u recordio a'u ffrydio ar-lein) yn amlwg yn ffordd werthfawr arall o wneud hyn. Mae YouTube yn ffordd ddilys arall i wella'ch sgiliau, ond sicrhewch bod y fideos a gyrchwyd yn broffesiynol ac yn ddeunydd ffeithiol gywir.

Darllenwch trwy'r rhestr a byddwch yn onest â chi'ch hun. Pan ddechreuwch y rhaglen TAR Drama, bydd disgwyl i chi gynllunio ac addysgu gwersi ar ystod o'r meysydd cwricwlwm hyn felly mae'n well eich bod yn ymwybodol o'ch gwybodaeth 'bylchau' nawr.

3) GWNEWCH RYWFAINT O DDARLLEN

Darllenwch am addysgu drama, e.e. (y ddau ar gael fel e-lyfrau pan fyddwch chi'n cofrestru)

- Fleming, M. (2017) *Starting Drama Teaching*. 4^{ydd} arg. Oxon: Routledge.
- Kempe, A. & Nicholson, H. (2007) *Learning to Teach Drama 11-18*, 2nd edn, Oxon: Routledge.

4) ARCHWILIWCH RAI GWEFANNAU/PODLEDIADAU

Edrychwch ar yr argymhellion gwefannau a phodlediadau hyn; byddant o gymorth mawr i chi yn ystod y rhaglen:

- [Drama Online](#): Mae'r Drama Online arobryn yn cyflwyno awduron newydd ochr yn ochr â'r enwau mwyaf eiconig yn hanes ysgrifennu dramâu, gan ddarparu cefndir cyd-destunol a

beirniadol trwy weithiau ysgolheigaid a chanllawiau ymarferol. Bydd gennych fynediad llawn i'r holl ddeunyddiau ar y gronfa ddata hon pan fyddwch chi'n cofrestru'n llawn ar y rhaglen.

- [Adnodd Drama](#): Gwefan Ymgynghorydd Drama, David Farmer.
- [Drama & Theatre](#): cylchgrawn addysgu drama bob hanner tymor.
- [Podlediad TAR Emma a Tom](#): Wedi'i gyd-gyflwyno gen i a'r Arweinydd Rhaglen ar gyfer TAR Cerddoriaeth, Tom Breeze
- [Blas ar Ddysgu Drama TGAU \(Cymraeg & Saesneg\)](#): Cymorth adolygu i ddisgyblion.
- [Half Hour Call](#): Podlediad Open Drama UK
- [National Drama](#): Gwefan ein prif gymdeithas pwnc proffesiynol cenedlaethol
- [Cwricwlwm Newydd i Gymru](#): Sgrolwch i lawr i drosolwg cwricwlwm Meysydd Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.
- [TGAU DRAMA CBAC](#): Edrychwch ar fanyleb y cwrs.
- [Safon UG/Uwch Drama a Theatr CBAC](#): Edrychwch ar fanyleb y cwrs.

Pob lwc gyda'r tasgau hyn. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ym mis Medi!

Arhoswch yn ddiogel ac yn iach.



Emma Thayer
Arweinydd Rhaglen

GENRES/CYFNOD	YMARFERWYR	CWMNIAU CYFOES
Theatr Affricanaidd Theatr Groeg Hynafol Theatr Asiaidd Commedia dell'Arte	Mike Alfreds Antonin Artaud Pina Bausch Steven Berkoff	1927 Arad Goch Complicite Dirty Protest

<p>Theatr Epig Theatr Ffeministaidd Mynegiadaeth Almaeneg Theatr Trochi Canoloesol Melodrama Theatr Gerdd Naturioldeb y 19eg Ganrif Dwyreiniol Pantomeim Prydeinig ar ôl y rhyfel Theatr Gorfforol Theatr Radical Dadeni Adfer Safle-benodol Theatr yr Abswrđ Theatr Creulondeb Theatr Verbatim Theatr Ieuenctid/Theatr mewn Addysg</p>	<p>Alecky Blythe Augusto Boal Bertolt Brecht Peter Brook Edward Gordon Craig Declan Donnellan Marianne Elliott Dario Fo & Franca Rame Rupert Goold Jerzy Grotowski Keith Johnstone Eddie Ladd Jacques Lecoq Mike Leigh Robert Lepage Joan Littlewood Vsevolod Meyerhold Katie Mitchell Erwin Piscator Emma Rice Konstantin Stanislavsky Julie Taymor Polly Teale Robert Wilson</p>	<p>DV8 Earthfall Forced Entertainment Frantic Assembly Gecko Headlong Hijinx Joint Stock Kneehigh Theatr Genedlaethol Cymru Paines Plough The Paper Birds Punchdrunk Red Ladder Shared Experience Splendid Theatre Talawa Theatre Tara Arts Theatr Iolo Trestle Theatre Volcano Theatre</p>
<p>Meysydd gwybodaeth, medr neu ddealltwriaeth</p>	<p>Confensiynau drama ystafell ddosbarth a strategaethau archwiliadol</p>	<p>DRAMODWYR</p>
<p>Rheolaeth llwyfan Dylunio a gweithredu goleuadau llwyfan Dylunio a gweithredu sain Dylunio setiau Dylunio a gwneud gwisgoedd Defnyddio offer fideo/amlgyfrwng Ymladd llwyfan Gwneud a defnyddio masgiau Gwneud a defnyddio pypedau</p>	<p>Theatr Fforwm Ffrâm rhewi Cadeiriau poeth Byrfyfyr Mantell yr arbenigwr Meim a symud Monolog/ymson Theatr ffisegol Rôl-ar-y-wal Tirwedd Sylw ar Tableau Athro mewn rôl (TiR) Olrhain meddwl</p> <p>Dyma adnodd gwych a luniwyd gan arbenigwr mewn addysgeg drama, Patrice Baldwin, a allai eich helpu gyda'r uchod.</p>	<p>Edrychwch o leiaf ar fanylebau TGAU a Safon UG/Uwch CBAC ar gyfer testunau gosod ac ymgyfarwyddo â theitlau anhysbys.</p> <p>* Dilynwch y dolenni a ddarperir yn y prif lythyr i gael mynediad at fanylebau CBAC.</p>

Atodiad A: Cynnwys Pwnc Cyffredin ar gyfer Drama